


Archwilio Pam

Bara



Fersiwn Estynedig

Archwilio Pam

Bara

Leslie J Francis a Tania ap Siôn
Darluniwyd gan Phillip Vernon



Bear Lands Publishing

Aled a Siân

Mae Aled a Siân wrth eu bodd yn archwilio'r mannau lle maen nhw'n byw a'r mannau y maen nhw'n mynd i ymweld â nhw. Maen nhw'n mwynhau chwarae 'Dw i'n gweld â'm llygad bach i' er mwyn eu helpu i ddod i adnabod y mannau hyn yn well. Yn y gyfres *Archwilio Pam*, mae Aled a Siân yn chwilfrydig ac eisiau gwybod pam fod rhai o'r pethau o'u cwrpas yn bwysig i'w ffrindiau Cristnogol, Iddewig a Mwslimaidd.

Mae'r gyfres yn cymryd arwyddocâd cymdeithasol crefydd o ddifrif, ac mae'n seiliedig ar ymchwil helaeth i sut mae plant yn dysgu amdany'n nhw eu hunain, am bobl eraill, ac am y byd maen nhw'n byw ynddo.

I ategu'r gyfres hon o lyfrau stori, mae amrywiaeth eang o adnoddau ar gyfer plant ac athrawon, y gellir eu llwytho i lawr am ddim, ac maen nhw ar gael ar hwb.wales.gov.uk/Adnoddau a st-marys-centre.org.uk

Mae'r llyfrau stori a'r gweithgareddau wedi'u hanelu at blant 5 - 7 mlwydd oed, ond mae'r adnoddau sy'n bosib eu llwytho i lawr yn gwneud y gyfres yn berthnasol i blant iau a phlant hŷn hefyd.

Cyhoeddwyd gan Bear Lands Publishing, Canolfan y Santes Fair, Llys Onnen, Abergwyngregyn, Gwynedd, LL33 0LD, Wales.

Hawlfraint © Tania ap Siôn a Leslie J Francis (testun), Phillip Vernon (darluniau).

Mae Tania ap Siôn, Leslie J Francis, a Phillip Vernon wedi mynnu eu hawl o dan Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988, i gael eu nodi fel awduron y gwaith hwn.

Cyfieithwyd gan Nant Roberts.

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir i unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn gael ei atgynhyrchu, na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy, na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng, electronig, electrostatig, tâp magnetig, mecanyddol, ffotogopïo, recordio, nac fel arall, heb ganiatâd llawn Bear Lands Publishing a deiliaid yr Hawlfraint.

Cyhoeddwyd gyntaf 2016.

Noddir gan Lywodraeth Cymru.

Teitlau'r gyfres *Archwilio Pam* yw:

Bara
Croes
Goleuni
Menora
Fêl
Dŵr
Symbolau Ffydd





Mae Aled a Siân wrth eu bodd yn archwilio'r ardal maen nhw'n byw ynddi a'r lleoedd maen nhw'n ymweld â nhw. Maen nhw'n mwynhau chwarae 'Dw i'n gweld â'm llygad bach', er mwyn eu helpu i

ddod i adnabod y lleoedd hyn yn well. Heddiw, fe welon nhw'r bara oedd ar y bwrdd i frecwast, ac yna fe fuon nhw'n ceisio gweld sawl math arall o fara y gallen nhw ddod o hyd iddo, a ble.



Daeth Aled a Siân i lawr y grisiau a mynd yn syth i'r gegin i fwyta eu brecwast. Yn gyntaf, roedden nhw'n arogl arogl hyfryd coffi poeth yng nghwpan eu mam. Yna, fe glywon nhw sŵn y tost yn neidio

yn y tostiwr. Roedden nhw'n gallu arogl i'r tost a oedd newydd ei grasu. Roedd yn gynnes ac yn barod iddyn nhw ei fwyta.




Yno, ar y bwrdd brecwast, fe welon nhw'r menynd a'r margarin, y marmalêd a'r mêl, y llaeth a'r grawnfwyd. "Dw i'n gweld â'm llygad bach i – bara," gwaeddodd Aled. Pwyntiodd at y tafelli tost

yn gorffwys ar y plât. Roedd rhai darnau'n gynnes ac wedi crasu'n ysgafn, roedd rhai bron yn ddu ac wedi crasu'n drwm iawn.




Mae Aled a Siân, yn dewis margarin i'w roi ar eu tost. Yna, dewisodd Aled y mêl a dewisodd Siân y marmalêd. Tra oedden nhw'n gorffen bwyta'u brecwast, roedd eu tad wrthi ar yr wyneb

gweithio'n paratoi eu pecynnau bwyd iddyn nhw i fynd i'r ysgol. Llun arth felen oedd ar focs bwyd Aled a llun arth frown oedd ar un Siân.




Yno, ar yr wyneb gweithio, fe welon nhw'r caws melyn a'r jar o bicl, yr afalau a'r bananas, y creision a'r bisgedi. "Dw i'n gweld â'm llygad bach i – bara," gwaeddodd Siân. Pwyntiodd at y rholiau

bara wedi'u torri'n barod ar gyfer eu cinio. Roedd rhai'n grwn a gwyn, roedd rhai eraill yn hirgrwn a brown.




Gan gario'u pecynnau bwyd, cychwynnodd Aled a Siân ar eu ffordd i'r ysgol. Wrth fynd trwy'r arcêd siopa, fe aethon nhw heibio siop Jones y gwerthwr pysgod ac roedden nhw'n gallu aroglï'r pysgod.

Cerddodd y ddau heibio'r siop ffrwythau a llysiau ac roedden nhw'n gallu aroglï'r llysiau. Yna, fe aethon nhw heibio siop Evans y pobydd ac roedden nhw'n gallu aroglï'r bara ffres o'r popty.



Yno, yn y ffenestr, fe welon nhw'r byns a'r tartenni, y cacennau ffrwythau a'r teisennau sbwng, y pasteiod a'r rholiau selsig. "Dw i'n gweld â'm llygad bach i – bara," gwaeddodd Aled. Pwyntiodd

at y torthau crwn, newydd eu crasu, yng nghefn y ffenestr. Roedd rhai yn fara cyflawn ac yn dywyll. Roedd rhai eraill yn fara gwyn ac wedi'u hysgeintio â blawd.



Aeth Aled a Siân ymlaen ar eu taith i'r ysgol drwy'r arcêd siopa. Cerddodd y ddau heibio siop y fferyllydd, heibio siop y gemydd a heibio'r siop hetiau. Yna, fe ddaethon nhw at Café Fleur. Roedd

ffrynt y caffï wedi'i beintio'n goch llachar. Coch hefyd oedd lliw y byrddau a'r cadeiriau y tu allan i'r caffï ar y palmant.



Edrychodd Aled a Siân ar y fwydlen ac ar yr holl fwyd oedd wedi'i osod ar y cownter y tu mewn. Roedd yno laeth a hufen, coffi poeth a diod siocled poeth, croissants a byns. "Dw i'n gweld â'm llygad

bach i – bara," gwaeddodd Siân. Pwyntiodd at y ffyn bara Ffrengig hir. Roedd crystyn crimp ar rai. Roedd rhai eraill â hadau drostyn nhw.



Cerddodd Aled a Siân ymlaen i'r ysgol. Cerddodd y ddau heibio'r rhes o hen dai teras, heibio'r byngalos smart, a heibio'r bloc o fflatiau newydd.

Yna, fe ddaethon nhw at dŷ eu ffrindiau Peter a Mary. Fe wnaethon nhw ganu'r gloch ac aros i'w ffrindiau ddod at y drws.




Yn y tŷ, roedd mam Peter a Mary'n brysur yn y gegin yn tylino blawd a burum, ac yn rhoio'r toes. "Dw i'n pobi bara" meddai, "yn barod ar gyfer y gwasanaeth dydd Sul yn yr Eglwys." "Tybed pam

mae bara mor bwysig ar gyfer y gwasanaeth dydd Sul?" gofynnodd Aled i Siân wrth iddyn nhw wyllo mam Peter a Mary'n brysur wrth ei gwaith.



Drwy'r dydd, yn yr ysgol, fe fu Aled a Siân yn dal ati gyda'u gêm o chwilio am wahanol fathau o fara. Fe fuon nhw'n dal i feddwl pam mae bara mor bwysig ar gyfer y gwasanaeth dydd Sul. Pan ddaeth y

diwrnod ysgol i ben, aeth Peter a Mary ag Aled a Siân i'w heglwys er mwyn eu helpu i ddod o hyd i'r ateb i'w cwestiwn.



Y tu mewn i'r eglwys, gwelodd Aled a Siân bopeth wedi'i osod yn union fel y mae ar gyfer y gwasanaeth dydd Sul. Yno, wedi'u gosod ar y lliain gwyn, fe welon nhw gwpan arian a phlât arian. Fe

welon nhw iwg o ddŵr a iwg o win. Fe welon nhw'r bara newydd ei grasu. "Tybed pam mae bara mor bwysig ar gyfer y gwasanaeth dydd Sul?" gofynnodd Siân i Aled.



Aeth Peter a Mary ag Aled a Siân i'r swyddfa yng nghefn yr eglwys a chwilio am gliwiau i'w helpu i ateb eu cwestiwn. Fe wnaethon nhw edrych yn y Llyfr Gwasanaeth, a darllen am Iesu'n cymryd bara

a'i rannu gyda'i ddisgyblion. Fe wnaethon nhw edrych yn y llyfr emynau a darllen yr emynau 'Bara'r nefoedd', a 'Torrwn fard'.



Yna, fe agorodd Peter a Mary'r Beibl a dod o hyd i bennod 6, yn Efengyl Marc. Yno, fe wnaethon nhw ddarllen am Iesu'n tosturio wrth y dyrfa fawr. Yna

cymerodd y pum torth a'r ddau bysgodyn, a chan edrych i fyny i'r nef a bendithio, torrodd y torthau a'u rhoi i'w ddisgylbion i'w gosod gerbron y bobl.



Roedd Aled a Siân â diddordeb yn yr hyn roedden nhw wedi'i ddysgu o'r Llyfr Gwasanaeth, o'r llyfr emynau, ac o'r Beibl. "Ond dw i'n dal i fod eisiau gwybod," meddai Aled wrth Siân, "pam mae bara

mor bwysig ar gyfer gwasanaeth dydd Sul?" "Rhaid i chi ddod i weld," meddai Peter a Mary. Felly, fe aeth Aled a Siân gyda Peter a Mary i'r eglwys ar y dydd Sul canlynol.




Y bore Sul hwnnw, y tu mewn i'r eglwys, syllodd Aled a Siân ar yr holl liwiau yn y ffenestr liw y tu ôl i'r allor. Yno, yn y canol, fe welon nhw lun o lesu'n

dal torth o fara yn ei ddwylo. Roedd ei ddisgyblion ar bob ochr iddo, ac yno o'i flaen roedd bachgen gyda basged yn dal pum torth fach.



Bu Aled a Siân yn gwylio'n dawel wrth i'r gwasanaeth fynd yn ei flaen. Yn ystod yr offrwym fe welon nhw rai'n gorymdeithio o gefn yr eglwys. Roedd bachgen yn cario'r jwg dŵr a'r jwg gwin.

Roedd merch yn cario'r dorth o fara ar blât arian. Yn eu harwain roedd bachgen a merch yn cario canhwyllau tal, ac fe aethon nhw'r holl ffordd at yr allor.



Mam Peter a Mary oedd yn arwain y gwasanaeth. Roedd hi'n gwisgo alb wen laes a chasul gwyrdd. Fe gymerodd hi'r bara, ei osod ar yr allor, a dweud "Bendigedig wyt ti, Arglwydd Dduw yr holl

greadigaeth. Trwy dy ddaioni y mae gennym y bara hwn i'w offrymu, a roddwyd gan y ddaear ac a wnaed gan ddwylo dynol. Fe ddaw i ni yn fara'r bywyd."




Roedd Aled a Siân yn dal i wyllo'n ddyfal wrth i fam Peter a Mary gymryd y bara a'i dorri'n ddarnau bach. Gwrandawodd y ddau arni'n

dweud "Torrwn y bara hwn er mwyn cyfranogi o Gorff Crist."



Yna, fe ddaeth y bobl o'u seddau a cherdded yn araf at yr allor. Wedi iddyn nhw ymestyn eu dwylo, fe roddodd mam Peter a Mary ddarn o fara i bob un gan ddweud, "Corff Crist, Bara'r Bywyd." Aeth

Aled a Siân gyda Peter a Mary i dderbyn bendith. "Y flwyddyn nesaf," meddai Peter a Mary, "fe fyddwn ninnau'n ddigon hen i gael rhan o'r bara!"



Yna, fe aeth Aled a Siân yn ôl i'w seddau ac aros nes roedd pawb arall wedi mynd yn ôl i'w seddau hefyd. Yn y distawrwydd, cyn y gweddïau olaf,

sibrydodd Aled a Siân gyda'i gilydd, "Nawr, rydyn ni'n gwybod pam mae bara mor bwysig ar gyfer y gwasanaeth dydd Sul!"

Mae Aled a Siân yn chwarae 'Dw i'n gweld â'm llygad bach i', a heddiw maen nhw'n chwilio am 'Fara'. Maen nhw'n dod o hyd i fara mewn pob math o leoedd o gwmpas ble maen nhw'n byw. Pan fydd Aled a Siân yn ymweld â'u ffrindiau, Peter a Mary, maen nhw'n dechrau gofyn cwestiwn pwysig – "Tybed pam mae bara mor bwysig ar gyfer gwasanaeth dydd Sul?" Gyda help Peter a Mary, mae Aled a Siân yn dechrau dod o hyd i rai atebion.



Bear Lands Publishing